**CYMDEITHAS LLANNERCH-Y-MEDD COMMUNITY COUNCIL**

**13.05.24**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) DAW ; TAJ; EO; IW; AR; RJ LLMH GW<br>**Ymddiheuriadau:** Cyng. LLA; RY EY DP JAJ<br>**Mynychu:** SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Adroddodd TAJ bod y Cyng. Jukes adref yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Christies ym Manceinion a'i fod yn gwella'n dda. Cytunwyd i'r Clerc anfon cerdyn ato gan yr aelodau yn dymuno adferiad iechyd buan a llwyr iddo.<br>Datganwyd cydymdeimlad a'r cyn Cynghorydd Jackie Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mrs Meirwen Jones. Nododd y Clerc ei bod wedi anfon cerdyn cydymdeimlad at y teulu ar ran y Cyngor Cymdeithas. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd LLMH ddiddordeb mewn unrhyw drafodaeth ar Bws Ysgol ger Bryncir ac ar Eitem 7 Materion Cynllunio Ty'n Ffynnon |
| **3** | **Cofnodion 04.04.24**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 04.04.24 fel rhai cywir (EO/DAW)<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>• **Cynllun Gweithredu Priffyrdd CSYM –** cylchredwyd copi diweddaraf eisoes gan y Clerc a nodwyd yr ymatebion gan Adran Priffyrdd ers cyfarfod mis Ebrill. Cytunwyd i ychwanegu yr isod at y Cynllun Gweithredu:-<br>Diffyg gwelededd ar y troadau ger y Ficerdy yn Coedana |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Tyllau drwg yn y ffordd ger Gwyndy Lon Amlwch ac o Stryd y Bont tuag at Bryn Gollen<br><br>Dwr yn dod i'r ffordd ger Waen Bêl – holi os oes gollyngiad yn gyfagos<br><br>Cais am *'Access Marker'* ger Capel Ifan i hwyluso mynediad i'r Capel / Festri.<br><br>• **Gwaredu Byrddau Snwcer –** Nodwyd bod cynrychiolaeth o Glwb Snwcer Amlwch wedi ymweld ac yn nodi diddordeb yn y *'cushions'* yn unig. Ni chafwyd ymateb gan Clwb Llanfair.<br><br>• **Menter Môn** – adroddodd y Clerc bod nifer o ddogfennau statudol y Cyngor Cymdeithas wedi eu rhannu gyda Catrin Jones o Menter Môn ar gyfer sylwadau pellach gan ei hymgynghorydd busnes.<br><br>• **Safle'r Bws Bryncir** – derbyniwyd ymateb CSYM ar y sefyllfa a chytunwyd i'r Clerc rannu'r sylwadau gyda awdur yr ymholiad gan nodi bod cynlluniau i fonitro gor-yrru yn yr ardal yma – dim gweithredu pellach. .<br><br>• **Gwasnasanaeth LLan bws** – adroddodd LLMH mai'r 'run ymateb sydd i law gan Adran Trafnidiaeth CSYM ac a gafwyd sawl blwyddyn yn ôl, sef bod eu hymchwiliadau yn dangos nad oes defnydd/galw am ychwanegiad i'r gwasanaeth cyfredol. Nodwyd bod dirywiad yn y defnydd yn dilyn cyfnod COVID. Nid oedd yr aelodau yn cytuno a mynegwyd siom am hyn.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 13.05.24 |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• **Prosiect Môn Actif** – adroddodd LLMH am gyfarfod diweddar gyda swyddog y prosiect, Gwenno Pritchard. Nododd bod Llannerchymedd wedi ei chlustnodi yn adral i elwa o'r prosiect sy'n helpu cadw'n heini ac atal gor-dewdra. Bydd Gwenno Prtichard yn dechrau trafodaethau gyda'r Ysgol, Clwb Ieuenctid, Clwb Peldroed a Caru Llan yn y man cyntaf ac yn adrodd yn ôl ar y datblygiadau trwy'r Clerc.<br>• **Cytundeb Partneriaeth** - adroddodd y Clerc bod y Loteri Fawr wedi derbyn a chymeradwyo'r Cytundeb Partneriaeth ar gyfer sefydlu Hwb Cymunedol LlanNi. Mae'r les rhwng CC Llan a CSYM am y salfe hefyd ar fin cael ei gwblhau. Bydd y gwaith adfer/addasu yn dechrau reit fuan.<br>• **Troadau Coedana** – adroddodd EO bod gwelededd ar y troadau ger y Ficerdy yn cael ei effeithio gan dyfiant y gwrychoedd. Cytunodd |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | LLMH i ddwyn i sylw Alun Roberts ac i'r Clerc ychwanegu at y Cynllun Gweithredu |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Ebrill –** **£**<br>Cyflog Clerc – Ebrill yn cynnwys taliad ZOOM £15.59 450.08<br><br>Scottish Power - Uned 1 75.31<br>Eryl Williams – coladu'r cyfrifon 2023-24 200.00<br>FUW – Yswiriant - ychwanegu Cae Glan Menai 49.72<br>Chq 001850 – *hwn i'w gadarnhau gan bod y llyfr siec hefo'r Archwiliwr mewnol*. 60.00<br><br>**Biliau cyfredol:** **£**<br>CSYM – talu rhent Glan Menai 34.74<br>Scottish Power – Uned 1 61.55<br>Clive Harper – talu am ddefnyddio'r Stafell Gyfarfod Tach 2023 – Mawrth 2024 130.00<br>Ad-dalu bil Amazon am y cyfarfpar TG i'r Stesion – Clerc 168.36<br>IG Jones & Co – gwasanaeth *Payroll & RTI Submissions* 246.00<br>Addasu cyflog Clerc Ebrill i adlewyrchu codiad yn y cyflog 241.51<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £12,907.16<br>Cyfrif Cadw: £ 6535.12<br><br>Cytunwyd i drosglwyddo £10K i'r cyfrif cadw ac i'r Clerc holi am y cyfrif gorau ar gyfer ein arbedion.<br><br>Eglurodd y Clerc nad oedd wedi derbyn y codiad yn ei chyflog ar gyfer Ebrill 2024 (fel a gytunwyd ym mis Ionawr 2024). Nododd bod IG Jones yn cyfrifo'r taliad ar y côd treth priodol. Cytunwyd i dalu'r diffyg o £241.51 a bydd taliadau o mis Mai ymlaen yn cael eu hadlewyrchu yn yr archeb sefydlog ar gyfer cyflog y Clerc. |
| **7** | **Materion Cynllunio**<br>**OP/2021/10 Cais Ty'n Ffynnon – diwygio amod (09) (Manylion Bipell Ddwr)**<br><br>Dim gwrthwynebiad. |
| **8.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** Nododd LLMH nad oedd unrhyw faterion neilltuol i ddwyn i sylw y cyfarfod ond bod croeso i unrhyw un gyflwyno cwestiwn neu sylw iddi. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| **9** | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel -** Unedau 5 a 6 yn wag bellach. Cafwyd trafodaeth am ddyfodol y safle a'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen cyn gallwn rentu ymhellach. Nododd y Clerc bod cais i law gan Sharon Roberts i rentu Uned i cadw car a storio eiddo. Cytunwyd yn unfrydol i wrthod y cais gan nad oedd yn ateb gofynion ceisiadau i rentu. Clerc i ateb y cais yn ffurfiol.<br><br>Cytunwyd i'r Clerc holi Rhys Jones Eiddo a Dylan Edwards Adran Eiddo CSYM am y camau priodol i lunio astudiaeth dichonoldeb/ papur opsiynau am y safle.<br><br>**Safle'r Stesion –**. dim i law<br><br>**Lawnt Fowlio –** Mynegwyd bryder am gyflwr cyfredol y safle. Clerc i geisio amcangyfrif o gost adfer cynnal a chadw. Mynegwyd pryder hefyd nad oes ateb i lythyr blaenorol i'r cyn aelodau am y gwaddol ariannol oedd yng nghoffrau'r Clwb cyn iddynt ei gau a throsglwyddo'r cyfrifodeb i'r Cyngor Cymdeithas. Cytunwyd yn unfrydol i'r Clerc ysgrifennu eto gan fynegi'r siom a hawlio gwybodaeth am £3K oedd yn y cyfrif.<br><br>**Clwb Peldroed –** nodwyd bod cyfarfod am y cytundeb wedi ei ohirio am y tro oherwydd amgylchiadau personol.<br><br>**Mynwentydd** – Clerc yn nodi bod bedd wedi suddo a bod y teulu perthnasol yn trafod gyda'u ymgymerwr. Cytunwyd i GW edrych mewn i'r posibilrwydd o ychwanegu rhes ar rhan isaf Plot A<br><br>**Cae gofeb –** Clerc i holi y contractwr am doriad buan. Clerc a DAW i lunio sgets o'r gofgolofn Byddin y Tir a'i rannu ar ebost er cymeradwyaeth |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br><br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd ar y Rhaglen gyda'r canlynol yn ychwanegol - dim sylwadau pellach.<br><br>• 4 Arlunwraig/cherflunwraing yn arddangos yn Oriel Môn<br>• Fforwm Ynysoedd yn dod i Ynys Môn<br>• Ymgynghoriad Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru<br>• Grant i adfer finiau caeau - CSYM |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8:50* |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com